LANFLR10

Sefydlu gweithredoedd a gweithgareddau marchnata i gefnogi'r busnes blodeuwriaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys sefydlu gweithrediadau a gweithgareddau marchnata i gefnogi'r busnes blodeuwriaeth.  Bydd hyn yn cynnwys sefydlu gweithgareddau hyrwyddo a marchnata, gan sefydlu arddangosfeydd o nwyddau blodeuwriaeth a'u cynnal a'u cadw er mwyn eu marchnata yn y ffordd orau posibl, yn ogystal ag ymchwilio i dechnoleg sy'n datblygu i gefnogi gweithredu a marchnata'r busnes blodeuwriaeth. Mae'r NOS hwn yn gofyn am sgiliau cyfathrebu da a'r defnydd o dechnoleg i gefnogi gweithredu a marchnata busnes blodeuwriaeth. Mae'r NOS hwn yn addas ar gyfer Gwerthwr Blodau Iau neu Uwch.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Arddangos technegau hyrwyddo a marchnata datblygedig, gan ddefnyddio offer hyrwyddo a marchnata perthnasol sydd ar gael i'r busnes blodeuwriaeth
2. Sefydlu gweithgareddau hyrwyddo a marchnata o fewn canllawiau busnes blodeuwriaeth
3. Sefydlu arddangosfeydd o nwyddau blodeuwriaeth a'u cynnal a'u cadw mewn ffordd sydd yn marchnata'r arddangosiadau yn y ffordd orau posibl, fel eu bod yn parhau'n ddeniadol, yn apelgar, ac yn ddiogel i gwsmeriaid
4. Cyfathrebu gyda phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith neu wedi eu heffeithio ganddo a chynnal gwaith tîm yr holl amser
5. Nodi dylanwadau mewnol ac allanol a allai gael effaith ar weithrediadau'r busnes blodeuwriaeth a gweithredu o fewn terfynau eich awdurdod
6. Ymchwilio i ddatblygiadau technolegol a allai helpu i gefnogi gweithrediadau'r busnes blodeuwriaeth a'r gweithgareddau marchnata
7. Cefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn y tîm blodeuwriaeth i wella gweithrediadau'r busnes blodeuwriaeth a'r gweithgareddau marchnata
8. Gwneud eich gwaith yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
9. Arddangos ymddygiad proffesiynol a dilyn polisïau a gweithdrefnau busnes, i gefnogi gweithrediadau'r busnes blodeuwriaeth a gweithgareddau marchnata

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. Y technegau hyrwyddo a marchnata perthnasol a sut i ddefnyddio offer hyrwyddo a marchnata sydd ar gael i'r busnes blodeuwriaeth
2. Sut i sefydlu gweithgareddau hyrwyddo a marchnata o fewn canllawiau'r busnes blodeuwriaeth
3. Sut i sefydlu arddangosfeydd nwyddau blodeuwriaeth a'u cynnal mewn ffordd sydd yn eu marchnata yn y ffordd orau posibl
4. Y strwythurau prisio a ddefnyddir yn y busnes blodeuwriaeth
5. Y cysyniad o elw a cholled yn y busnes blodeuwriaeth a sut gall hyn effeithio ar weithredoedd a gweithgareddau marchnata
6. Pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo a sut dylid gwneud hyn
7. Sut gallai dylanwadau mewnol ac allanol effeithio ar weithrediadau'r busnes blodeuwriaeth a'r camau i'w cymryd o fewn terfynau eich awdurdod
8. Pwysigrwydd ymchwilio i ddatblygiadau technolegol i helpu i gefnogi gweithrediadau busnes a gweithgareddau marchnata blodeuwriaeth
9. Yr hyfforddiant sydd ar gael i gefnogi gweithrediadau busnes a marchnata blodeuwriaeth a phwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) y tîm blodeuwriaeth
10. Y ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg a pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Geirfa

Deddfwriaeth cyflogaeth: Deddf Cyflogaeth, Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol, Deddf Rheoleiddio Amserau Gweithio, Deddf Cydraddoldeb, Deddf Gwerthu Nwyddau, GDPR, y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

LANFLR10

Sefydlu gweithredoedd a gweithgareddau marchnata i gefnogi'r busnes blodeuwriaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 12 Ebr 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 12 Ebr 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFLR2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwerthwr Blodau Uwch |
| **Cyfres/Set** | Blodeuwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Gwerthiannau; Blodau; planhigion; staff; gwerthwr blodau; |